EISTEDDFOD

# Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli

## Cefndir

Mae’r Eisteddfod Genedlaethol yn ddathliad o ddiwylliant Cymru a’r iaith Gymraeg ac fe’i chynhelir yn ystod wythnos gyntaf Awst bob blwyddyn.

Mae'r ŵyl yn teithio o le i le, gan ymweld â gogledd a de Cymru bob yn ail, a denu tua 175,000 o ymwelwyr a thros 250 o stondinau.

Mae'r ŵyl wedi datblygu ac esblygu dros y blynyddoedd diwethaf, ac er bod y cystadlaethau yn parhau i fod yn ganolbwynt canolog ar gyfer yr wythnos, gan ddenu dros 6,000 o gystadleuwyr bob blwyddyn, mae'r Maes wedi tyfu i fod yn ŵyl fywiog gyda channoedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y teulu cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o awduron, cerddorion a beirdd blaenllaw Cymru wedi cystadlu yn yr Eisteddfod, gyda llawer o berfformwyr yn ymddangos ar lwyfan cenedlaethol am y tro cyntaf yn ystod yr ŵyl.

Yr Eisteddfod yw’r ffenest siop berffaith i gerddoriaeth, dawns, celfyddydau gweledol, llenyddiaeth, perfformiadau gwreiddiol a llawer mwy. Gan gwmpasu pob agwedd ar y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, mae'n ŵyl gynhwysol a chroesawgar, sy'n denu miloedd o ddysgwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad yr iaith, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg.

Disgrifiwyd yr Eisteddfod fel prosiect adfywio teithiol blaenaf Cymru, ac wythnos yr Eisteddfod yw uchafbwynt prosiect cymunedol sy’n para dwy flynedd, gan ddod â phobl o bob oedran a chefndir o gymunedau gwahanol ledled Cymru ynghyd bob blwyddyn.

Gyda chymysgedd o waith all-ymestyn, prosiectau addysg gydol oes a chyfleoedd gwirfoddoli, mae'r prosiect cymunedol yn llywio’r paratoadau ar gyfer yr ŵyl, gan roi cyfle i bobl leol wneud eu marc ar ein gŵyl genedlaethol.

### Y Rôl

Mae’r Eisteddfod Genedlaethol, un o wyliau diwylliannol mwyaf Ewrop a’r ŵyl fwyaf yng Nghymru, yn gwahodd enwebiadau am rôl Llywydd y Llys. Bydd yr unigolyn a benodir hefyd yn gweithredu fel Cadeirydd y Bwrdd Rheoli.

Ar gyfer cam nesaf ein taith, rydym angen unigolyn a all ddarparu arweinyddiaeth ysbrydoledig a medrus ar gyfer yr Eisteddfod, gan ddatblygu a hyrwyddo ei huchelgeisiau strategol, a sicrhau bod yr Elusen yn cael ei rheoli’n gadarn ac effeithiol.

Fel Llywydd y Llys byddwch yn cadeirio cyfarfod blynyddol y Llys ac yn sicrhau bod gan Aelodau’r Elusen lais clir yng ngwaith a chyfeiriad strategol yr Eisteddfod. Bydd yn ofynnol i chi fedru cyfathrebu’n hyderus yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, a bydd disgwyl i chi fod â phrofiad o gael eich cyfweld ar radio a theledu yn y Gymraeg a Saesneg.

Fel Cadeirydd y Bwrdd (Ymddiriedolwyr) byddwch yn cadeirio cyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd Rheoli ac yn gweithio yn effeithiol gyda’r Ymddiriedolwyr, y Tîm Gweithredol ac amrywiol bartneriaid i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth strategol. Byddwch hefyd yn cydweithio’n agos gyda’r Prif Weithredwr i ddatblygu a chynnal perthnasau strategol, hwyluso llywodraethu effeithiol, a chynllunio strategaeth clir i’r dyfodol.

Byddwch hefyd yn teimlo'n hyderus wrth siarad yn gyhoeddus, boed hynny yn yr Eisteddfod, neu wrth gynrychioli'r sefydliad mewn gwahanol sefyllfaoedd swyddogol drwy gydol y flwyddyn.

**Profiad a Sgiliau**

- Profiad o lunio, datblygu a gwerthuso strategaethau a pholisïau yn llwyddiannus
- Profiad llwyddiannus o ddatblygu busnes, partneriaethau, a gwerthuso cyllidebau
- Profiad o lywodraethu a'r gallu i gyd-weithio'n adeiladol gydag Ymddiriedolwyr, Tîm Rheoli, Cyngor ac Aelodau Llys yr Eisteddfod
- Y gallu i gynrychioli sefydliad mewn cyfweliadau gwasg a chyfryngau o bob math yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Sgiliau cadeirio a chyfathrebu o safon uchel yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Dealltwriaeth drylwyr o waith yr Eisteddfod Genedlaethol, diwylliant Cymru, y Gymraeg a'r hinsawdd wleidyddol gyfredol yng Nghymru
- Y gallu i arwain, ysgogi, cymell ac ysbrydoli unigolion a thimau i gyflawni lefelau perfformiad uchel a chyrraedd eu potensial
- Y gallu i gymryd rhan mewn digwyddiadau er mwyn hyrwyddo gwaith yr Eisteddfod
- Profiad o ddatblygu perthnasau adeiladol ac effeithiol, ac o ddylanwadu ar rai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol
- Y gallu i weithredu ac arwain dan bwysau cyhoeddus
- Profiad o eirioli a negodi gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar bob lefel
  Parodrwydd i fynychu cyfarfodydd gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol

Mae'r rôl yn ddi-dal ond telir cyfraniad tuag at gostau teithio a llety. Mae'r penodiad am gyfnod o hyd at dair blynedd.

Rydym yn annog a chroesawu ceisiadau gan unigolion o bob cefndir a chymuned. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan fenywod ac unigolion o blith cymunedau du a lleiafrifol ethnig a grwpiau eraill a dangynrychiolir.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:**12:00 (hanner dydd), ddydd Gwener, 18 Gorffennaf, 2025.**

Am drafodaeth anffurfiol ac i ymgeisio, cysylltwch â Betsan Moses, e-bost - betsan@eisteddfod.cymru. Wrth wneud cais, dylech nodi **'Cais Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a Llywydd y Llys'** yn y llinell pwnc, ac atodwch gopi o'ch CV a llythyr eglurhaol.

Caiff pob cais ei gydnabod.